Sant Ffolant: y drydedd ganrif

Merch y barnwr yn cael ei golwg yn ôl

Dewrder / ymddiriedaeth

Ydych chi yn gwybod am rywun sy'n ddall? Sut maen nhw'n teimlo tybed? Efallai nad ydyn nhw erioed wedi gweld o gwbl. Neu efallai eu bod nhw wedi mynd yn ddall yn ystod eu bywyd. Ydych chi wedi meddwl sut maen nhw'n cerdded, bwyta, chwarae, darllen? Rydym ni yn gallu gwneud y rhain i gyd, ond i rywun sy'n ddall mae'n anodd iawn, iawn. Dyma stori am Ffolant, sant y cariadon, a'r ferch ifanc ddall.

Amser maith yn ôl yn ninas Rhufain roedd yna farnwr yn byw. Roedd ei ferch fach yn ddall. Cafodd y barnwr ei alw o flaen yr Ymerawdwr. Eisteddai'r Ymerawdwr ar ei orsedd a'i filwyr o'i gwmpas. Ar y llawr o'i flaen roedd y carcharor. Ei enw oedd Ffolant.

Meddai'r Ymerawdwr wrth y barnwr, "Rwyf am i ti fynd â'r carcharor hwn i'th dŷ dy hun. Paid â gadael iddo ddianc. Mae o'n dilyn Iesu Grist a dydi o byth yn tewi. Mae'n sôn amdano o fore gwyn tan nos."

"Iawn, f'Arglwydd," meddai'r barnwr.

Roedd merch y barnwr yn disgwyl am ei thad. Roedd hi'n adnabod sŵn ei gerddediad. Ond, y tro hwn, roedd hi'n gwybod fod yna rywun arall efo'i thad.

Wrth fynd i mewn i'r tŷ efo'r barnwr fe glywodd y ferch fach lais y gŵr dieithr yn dweud, "Bendith i bawb sy'n byw yn y tŷ hwn, yn enw Iesu Grist."

Meddai'r barnwr wrth Ffolant, "Os wyt ti'n dweud fod Iesu Grist yn oleuni'r byd, yna mi ydw i eisiau prawf o hynny. Mae fy merch fach yn ddall ac os medri di roi ei golwg yn ôl iddi, yna mi gredaf i a'r teulu i gyd yn Iesu Grist."

"Tyrd yma, fy merch," galwodd y barnwr.

Dechreuodd gerdded tuag at lais ei thad. Roedd hi'n defnyddio ei dwylo i gerdded yn ofalus tuag ato. Yna wrth iddi nesáu at lais ei thad, clywodd lais arall, llais y gŵr dieithr.

Dywedodd y gŵr dieithr, "Iesu Grist, Ti yw goleuni'r byd,

rho oleuni i'r ferch hon. Yn enw Iesu, boed i'r ferch hon gael ei golwg yn ôl."

Ac yn wir, fe agorodd ei llygaid. Gwelodd yr awyr las a goleuni'r haul a'r tŷ mawr yr oedd yn byw ynddo. Y diwrnod hwnnw roedd pawb yn y tŷ yn hapus. Cafodd y gŵr dieithr groeso mawr gan bawb oedd yn byw yn y tŷ. Arhosodd gyda'r barnwr a'i ferch am amser maith.

"Mae'r deillion yn cael eu golwg yn ôl."
Mathew 11:5

O Dduw,
bydd yn llaw ac yn droed,
i bawb sy'n ddall.
Amen.

Petaech chi'n ddall, beth fyddai'r pethau y byddech chi'n eu colli fwyaf?

Sant Ffolant: y drydedd ganrif